**Datblygiad Dyframaeth yng Nghymru:**

**Canllawiau i Ddatblygwyr ynghylch Ymgynghori Cyn-Cais â Rheoleiddwyr/Awdurdodau**

Y sefydliadau a restrir isod yw'r rhai sydd un ai'n rheoleiddio datblygiadau dyframaeth, yn cynghori rheoleiddwyr yn rheolaidd neu'n caniatáu hawliau teitl ar wely'r môr neu ar y blaendraeth. Bydd peidio â chael y caniatadau, neu gael cytundeb ar argymhellion ffafriol ar gyfer y caniatadau hynny, neu beidio â chael hawliau ar wely'r môr neu ar y blaendraeth, yn gwahardd unrhyw ddatblygiad. Mae'n hanfodol, felly, ymgynghori â'r holl awdurdodau sy'n berthnasol i'r datblygiad yn gynnar i ganfod unrhyw broblemau o bwys cyn symud ymlaen ag urhyw broses ymgeisio ffurfriol.

| Rheoleiddiwr / Awdurdod | Cylch Gwaith Rheoleiddio / Awdurdodi | Caniatâd / Awdurdodiad | Rhywogaethau Perthnasol | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pysgod Esgyll | Pysgod Cregyn | Gwymon |
| Awdurdodau Lleol | Caniatáu datblygiadau ffermydd pysgod ar y tir.<br>Ymgynghorai posibl ynghylch datblygiadau dyframaeth ar y môr.<br><br>Swyddogaethau Iechyd Amgylcheddol.<br>Cael gwared ar bysgod esgyll a physgod cregyn marw yn cael eu ffermio ar y tir oni bai mewn achosion o afiechyd hysbysadwy sy'n gyfrifoldeb cyffredinol ar yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod<br><br>Awdurdod cymwys o dan y cyfarwyddebau cadwraeth natur* | Caniatâd Cynllunio<br><br><br>Iechyd Amgylcheddol. | Ie<br><br><br>Ie | Ie<br><br><br>Ie | Ie<br><br><br>Ie |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Trwyddedu gweithgareddau morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) e.e. ffermydd pysgod esgyll a physgod cregyn.<br><br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynghori Llywodraeth Cymru fel ei hymgynghorydd cadwraeth natur statudol.<br>Ymgynghorai / ymgynghorwr statudol ar gyfer Asesiad Effeithiau Amgylcheddol, Asesiadau Risg Cynefinoedd neu'r Gyfarwyddeb | Trwydded Forol<br><br><br>Cynghori ynghylch caniatadau cynllunio ac ardaloedd gwarchodedig | Ie<br><br><br>Ie | Ie**<br><br><br>Ie | Ie***<br><br><br>Ie |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Fframwaith Dŵr i awdurdodau cymwys e.e. caniatâd cynllunio gan Awdurdod Lleol<br>Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r asiantaeth Briodol ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br><br>Trwyddedu gollyngiadau gwastraff a milfeddygol o ffermydd pysgod esgyll ac Echdyniadau a Gollyngiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am wella neu warchod yr Ardaloedd Gwarchod Dyfroedd Pysgod Cregyn i gefnogi bywyd a thwf pysgod cregyn a chyfrannu at gynnyrch pysgod cregyn o ansawdd da fel bwyd i bobl.<br><br>Trwyddedu cyflenwi a chyflwyno pysgod i ddyfroedd y mewndir. Y Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014<br><br>Rheoli Gorchmynion Rheoleiddio Cocos Dyfrdwy a Chilfach Tywyn<br><br>Awdurdod cymwys o dan gyfarwyddebau cadwraeth natur* | Trwyddedau Echdynnu a Gollwng<br><br>Rheoli Dyfroedd Pysgod Cregyn ac Ymgynghorai ar gyfer trwyddedu gan yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod a Busnesau Cynnyrch Dyframaeth<br>Trwyddedu ffermio a chyflwyno pysgod dŵr croyw<br><br>Rheoli Gorchmynion Rheoleiddio | Ie<br><br>Na<br><br>Ie<br><br>Na | Ie<br><br>Ie<br><br>Na<br><br>Ie | Ie, os yn rhan o systemau dyframaethu ailgylchdrol<br><br>Na<br><br>Na<br><br>Na |
| Llywodraeth Cymru | Rheoli pysgodfeydd, cadwraeth a gorfodaeth o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, deddfwriaeth pysgodfeydd genedlaethol ac Ewropeaidd gan gynnwys cyflwyno Gorchmynion Unigol a Rheoleiddio o dan Ddeddf Pysgodfeydd y Môr (Pysgod Cregyn) 1967. | Trwyddedu a rheoleiddio rhai gweithgareddau | Ie | Ie | Ie |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Gofodol Morol gan gynnwys nodi ardaloedd dyframaeth ym moroedd Cymru a chysylltiadau â Strategaeth Dyframaeth Cymru<br><br>Dynodi Dyfroedd Pysgod Cregyn o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priodol ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr<br><br>Awdurdod cymwys o dan y cyfarwyddiadau cadwraeth natur* | Nodi ardaloedd a ffefrir ar gyfer dyframaeth.<br><br>Dynodi dyfroedd pysgod cregyn o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Ie<br><br>Na | Ie<br><br>Ie | Ie<br><br>Na |
| Yr Arolygaieth Iechyd Pysgod | Awdurdodi busnesau cynhyrchu dyframaeth o dan Reoliadau Iechyd Anifeiliaid y Dŵr (Cymru a Lloegr) 2009<br><br>Awdurdodi mewnforio pysgod a physgod cregyn byw o dan y Gyfarwyddeb Iechyd Anifeiliaid y Dŵr 2006/8 a’r Confensiwn Masnach Rhyngwladol Rhywogaethau o Ffawna a Fflora mewn Perygl, os yn berthnasol<br><br>Trwyddedu o dan Reoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy’n Absennol yn Lleol mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) 2011. Trwyddedu cimychiaid.<br><br>Gwaredu pysgod cregyn marw mewn ffermydd pysgod a physgod cregyn lle mae afiechyd hysbysadwy<br><br>Cynorthwyo’r Gyfarwyddiaeth Moddion Milfeddygol a’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ynghylch bwyd yn cynnwys meddyginiaethau a chludo pysgod byw | Awdurdodi gweithredu busnesau cynhyrchu dyframaeth<br><br>Awdurdodi mewnforio da byw<br><br>Trwyddedu ffermio rhywogaethau estron.<br><br>Adrodd a gwaredu afiechydon hysbysadwy<br><br>Archwiliadau o dan y Gyfarwyddiaeth Moddion Milfeddygol a’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | Ie<br><br>Ie<br><br>Ie<br><br>Ie<br><br>Ie | Ie<br><br>Ie<br><br>Ie<br><br>Ie<br><br>Na | Na<br><br>Na<br><br>Ie<br><br>Na<br><br>Na |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Awdurdod cymwys / rheolaethol o dan y cyfarwyddiadau cadwraeth natur pan fydd busnesau cynhyrchu dyframaeth o fewn ardaloedd gwarchodedig Ewropeaidd (Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig neu Safle Ramsar)* | Asesiad Risg Cynefinoedd | Ie | Ie | Na |
| Canolfan Gwyddor Amgylcheddol Pysgodfeydd a Dyframaeth | Ymgynghorwyr i awdurdodau rheoleiddio ynghylch rhai effeithiau amgylcheddol cynigion datblygu.<br><br>Pan fydd y Ganolfan / yr Arolygaeth Iechyd Pysgod yn gweithredu fel awdurdod rheoleiddo mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i gynnal asesiadau megis Asesiad Risg Cynefinoedd oni bai bod corff rheoleiddio arall oedd â rhan yn gynharach mewn unrhyw ddatblygiad eisoes wedi cynnal Asesiad Risg Cynefinoedd o'r fath. * | Asesiad Effeithiau Amgylcheddol<br><br>Asesiadau Risg Cynefinoedd | Ie<br><br>Ie | Ie<br><br>Ie | Ie<br><br>Na |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Dosbarthiad a gweinyddiaeth ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn (dyfroedd dosbarthiad pysgod cregyn) a monitor bio-wenwynau o dan y Gyfarwyddeb Hylendid Pysgod Cregyn (Rheoliad y Cyngor Ewropeaidd 854/2004).<br><br>Cymeradwyo gweithfeydd puro pysgod cregyn o dan Reoliad y Cyngor Ewropeaidd 853/2004, gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd o darddiad anifeilaidd.<br><br>Awdurdod cymwys o dan y cyfarwyddebau cadwraeth natur* | Dosbarthiad ardaloedd diogel ar gyfer dyframaethu pysgod cregyn a monitro biowenwynau<br><br>Cymeradwyo gweithfeydd puro ar gyfer pysgod cregyn | Na<br><br>Na | Ie<br><br>Ie | Na<br><br>Na |
| Tirfeddianwyr gan gynnwys Ystâd y Goron ac Ystâd Swangrove ac Awdurdodau Porthladdoedd | Caniatáu hawliau ar wely'r môr ac ar y blaendraeth ar gyfer datblygiadau dyframaeth<br><br>Awdurdod cymwys o dan y cyfarwyddebau cadwraeth natur* | Prydlesau Gwely'r Môr / Blaendraeth | Ie | Ie**** | Ie |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau | Gweithio i rwystro colli bywydau ar yr arfordir ac yn y môr. Cynhyrchu deddfwriaeth a chanllawiau ar faterion morol a darparu tystysgrifiad i forwyr.<br><br>Rhaid i'r Asiantaeth gadarnhau nad yw gweithgareddau sydd wedi'u heithrio rhag cael trwydded forol yn berygl i fordwyo | Dogfennu / hyfforddi Morwyr, Iechyd a Diogelwch Morwyr, Ymladd Llygredd, Polisi Amgylcheddol, Chwilio ac Achub, Arolygu ac Archwilio, Safonau Llongau, Gorfodi, Derbynnydd Llongddrylliadau | Ie | Ie | Ie |
| Trinity House | Mae gofyn cysylltu â Trinity House ar ôl derbyn trwydded forol i weld a fydd unrhyw seilwaith dyframaeth angen marcwyr mordwyo. | Diogelwch mordwyo (marcwyr) | Ie | Ie | Ie |
| Y Gyfarwyddiaeth Moddion Milfeddygol | Diogelu iechyd anifeiliaid, iechyd pobl a'r amgylchedd<br>Samplo a monitro eiddo dyframaeth<br>Defnydd Bwyd yn Cynnwys Meddyginiaethau a meddyginiaethau eraill mewn amaethu pysgod | Awdurdodi moddion cymeradwy a chymeradwyo cynhyrchu bwyd yn cynnwys moddion | Ie | Na | Na |
| Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | Rheoleiddio ac adrodd ar afiechydon hysbysadwy ar y cyd â'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod, adrodd ar farwolaethau pysgod (drwy awdurdodau lleol)<br><br>Lles anifeiliaid yn cael eu cludo, ar ffermydd ac wrth eu lladd. Mae'r Asiantaeth yn cyflwyno trwyddedau i bob cludwr anifeiliaid byw o dan y Rheoliadau Anifeiliaid yn cael eu Cludo. Mae'n rhaid i ffermwyr pysgod (neu fasnachwyr anifeiliaid addurn) sy'n cludo eu hanifeiliaid eu hunain, neu gwmnïau arbenigol sy'n cludo pysgod, gael trwydded. | Adrodd ar afiechydon hysbysadwy<br><br>Tystysgrifau Cludo Anifeiliaid ac Awdurdodi Cludwyr | Ie<br><br>Ie | Ie<br><br>Na | Na<br><br>Na |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Awdurdod cymwys o dan y cyfarwyddebau cadwraeth natur* | | | | |
| Yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau | Amddiffyn gweithwyr rhan cael eu hecsbloetio a sefydlwyd o dan Ddeddf Meistri Gangiau (Trwyddedu) 2004. Mae’r Awdurdod yn rheoleiddio’r rhai sy’n darparu neu’n cyflogi gweithwyr i gasglu pysgod cregyn â llaw. Mae hefyd yn berthnasol i’r rhai sy’n darparu gweithwyr i broesesu neu bacio unrhyw bysgod neu bysgod cregyn ac unrhyw gynnyrch cysylltiedig. | Trwydded yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau | Efallai | Efallai | Na |

*Efallai y bydd gofyn cynnal Asesiad Effeithiau Amgylcheddol, Asesiad Risg Cynefinoedd a Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd pwy fydd yn gyfrifol am baratoi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer cynlluniau neu brosiectau dyframaeth yn dibynnu ar y lleoliad ac ar y gweithgaredd. Fodd bynnag, os bydd angen mwy nag un caniatâd gan sawl awdurdod cymwys, ni ddylai pob awdurdod cymwys baratoi Asesiad Risg Cynefinoedd ar gyfer yr un datblygiad. Yn hytrach, fel ddylen nhw gydweithio, nodi arweinydd a gwneud yn siŵr fod yr Asesiad sy’n cael ei baratoi yn addas at swyddogaethau a chyfrifoldebau pob asiantaeth. Mae peth cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd yma i roi gwybod i bob awdurdod cymwys â phwy y cysylltwyd ac i ddarparu'r wybodaeth gefnogol berthnasol er mwyn i'r awdurdodau gynnal yr asesiad.

**O dan rhai amgylchiadau, yn dibynnu ar y seilwaith, mae magu pysgod cregyn yn cael ei eithrio o dan y Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011, dylai’r ymgeisydd holi a yw'r cynllun yn eithriedig drwy gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a chysylltu hefyd a'r Awdurdod Morol ac Arfordirol a Trinity House i holi a fyddai'r cynllun yn debyg o fod yn rhwystr neu'n berygl i fordwyo.

*** Nid yw magu gwymon, ar hyn o bryd, yn dod yn benodol o dan y Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ond mae'r seilwaith yn debyg (rhaffau a llinynnau) i bysgod cregyn. Dylai’r ymgeisydd holi i weld a yw’r cynllun yn eithriedig drwy gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, a chysylltu hefyd a'r Awdurdod Morol ac Arfordirol a Trinity House i holi a fyddai'r cynllun yn debyg o fod yn rhwystr neu'n berygl i fordwyo.

**** Gallai ffermydd pysgod cregyn ar y blaendraeth fod ar dir nad yw'n eiddo i'r Goron ac felly angen caniatâd gan dirfeddiannwr penodol.

**Manylion Cyswllt**

| Rheoleiddiwr / Awdurdod | Ebost | Ffôn: | Gwefan: |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | Gweler dolen gwe | Gweler dolen gwe | http://wlga.cymru/welsh-local-authority-links |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Trwyddedu morol: marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk<br><br>Echdynnu a gollwng dŵr permitreceiptcentre@naturalresourceswales.gov.uk<br><br>Cyngor ac asesiad Asesiad Effeithiau Amgylcheddol / Asesiad Risg Cynefinoedd strategic.assessment@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk ar gyfer Asesiad Risg Cynefinoedd neu planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk ar gyfer Asesiad Effeithiau Amgylcheddol | Ymholiadau cyffredinol 0300 065 3000 | http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/?lang=cy<br><br>http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/559/pdfs/wsi_20110559_mi.pdf<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-quality/improving-water-quality/?lang=cy<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-quality/shellfish-water-protected-areas/?lang=cy<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/water-abstraction-and-impoundment/changes-to-water-abstraction-licensing-exemptions/?lang=cy<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/the-role-of-natural-resources-wales-in-environmental-assessment/?lang=cy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | marineandfisheries@gov.wales<br><br>marineplanning@wales.gsi.gov.uk | 0300 025 2454 | http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/?lang=cy<br><br>http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/?lang=cy<br><br>http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/SeaFisheries/aquaculture/spatial-assessment-of-the-potential-for-aquaculture-in-welsh-waters/?lang=cy |
| Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod | fhi@cefas.co.uk | 01305 206700 | https://www.gov.uk/fish-and-shellfish-farm-authorisation-and-registration<br><br>https://www.gov.uk/guidance/import-or-export-live-fish-and-shellfish |
| Canolfan Gwyddor Amgylcheddol Pysgodfeydd a Dyframaethu | fhi@cefas.co.uk | 01502 562244 | https://www.cefas.co.uk/ |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Food.Policy.Wales@food.gov.uk<br><br>shellfishtoxins@foodstandards.gsi.gov.uk<br><br>Ar gyfer awdurdodau lleol: lasupportwales@foodstandards.gsi.gov.uk | Rebecca Watts ar 020 7276 8046<br><br>Neu Gyffredinol ffonio 029 2067 8940 | https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/amdanomni/cysylltudeyrnasunedig/contact-us-welsh<br><br>https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/gorfodi/monitro/pysgod-cregyn-cymru<br><br>https://www.food.gov.uk/enforcement/monitoring/shellfish/shellharvestareas |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/gorfodi/monitro/monitro-biotocsinau<br><br>https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/gorfodi/monitro/pysgod-cregyn-cymru/shellfish-purification |
| Ystâd y Goron | Charlene.McPake@thecrownestate.co.uk | 020 7851 5090 | http://www.thecrownestate.co.uk/rural-and-coastal/coastal/downloads/ |
| Yr Awdurod Morol ac Arfordirol . | infoline@mcga.gov.uk | 0203 817 2000 | https://www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency |
| Trinity House | navigation.directorate@thls.org | 020 7481 6900 | http://www.trinityhouse.co.uk/ |
| Y Gyfarwyddiaeth Moddion Milfeddygol | inspections@vmd.defra.gsi.gov.uk | 01932 336911 | https://www.gov.uk/government/organisations/veterinary-medicines-directorate |
| Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk | 0300 303 8268<br><br>Swyddfa faes Caerfyrddin 01267 245 500<br><br>Swdydfa faes Caernarfon 01286 674 626 | https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening |
| Yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau | licensing@gla.gsi.gov.uk | 0345 602 5020 | http://www.gla.gov.uk/ |